



MENTER NEWYDD AM COFIO LLYWELYN

Mae Cymdeithas Cofio Llywelyn yn gobeithio codi cofeb i ddynion fyddin Llywelyn a fu farw ym 1282 yn ôl bradwriaeth, ar ôl dod i'r de i gefnogi Llywelyn, lle maen nhw'n gwersylla ar y Cwrs Golff Llanfair-ym-Muallt presennol.

Mae gan y Gymdeithas y dyluniad, a hefyd gefnogaeth Clwb Golff Llanfair-ym-Muallt, ond nawr maen nhw angen yr arian – sawl mil o bunnoedd.

Y dylunydd a'r engrafwr adnabyddus, Ieuan Rees, wedi darparu'r dyluniad hardd hwn:



Yn y Flwyddyn Newydd byddant yn trefnu Cyfrif Crowdfunding ond, yn y cyfamser, gallant gasglu arian parod neu byddent yn croesawu sieciau a anfonir at eu Trysorydd:

Sybil Davies, 2 Brombil Cottages, Margam, Port Talbot SA13 2SR
neu daliadau BACS i'w Cyfrif Busnes:

Enw'r Cyfrif: 'I Fyddin Llywelyn'

Côd y Banc: 20-58-72

Rhif y Cyfrif: 73946436

Diolch am eich cefnogaeth



Heddwch Nain/Mamgu

COFIO : DATHLU : GWIREDDU

Apél Menywod Cymru i Fenywod America 1924

Apél Menywod Cymru i Fenywod y Byd 2024

Ar ôl y golled enfawr o anwyliaid yn ystod y rhyfel by cyntaf, llofnododd **390,296** o fenywod Cymru ddeiseb yn galw am fyd di-ryfel ac am sefydlu Cynghair y Cenhedloedd, fforwm i drafod opsiynau eraill yn hytrach na mynd i ryfel.

Gan fod y Ddeiseb wedi cyrraedd pob aelwyd yng Nghymru a Mynwy a 65% o fenywod wedi codi eu llais trwy lofnodi, siawns dda iawn bod eich nain/mamgu y neu mysg.

Mae eu disgynyddion, menywod a dynion ar draws Cymru yn dechrau gweithio o few neu cymunedau i ddod o hyd i hanesion eu neiniau, eu dioddefaint a sut aethent ymlaen i fod yn genhadon heddwch.

Beth oedd hanes eich nain/mamgu os nad oedd hi'n byw yng Nghymru ar ôl y Rhyfel Mawr ac yn y 20egau?

Mae'r gist sy'n dal y llofnodion wedi ei darganfod yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington. Mae Heddwch Nain/Mamgu eisiau gweld cynnwys y gist wedi'i ddigideiddio fel y gall cymunedau olrhain eu neiniau. Rydym yn gobeithio trefnu arddangosfeydd a digwyddiadau sy'n dathlu Gwaith gwreiddiol a'i ddefnyddio i ysbrydoli cenhedlaeth heddiw gydag ysbryd eu neiniau/mamau-cu.

Mae gennym ddeiseb gyfoes wedi ei symbylu gan Ddeiseb 1923-24 yn galw am i'r Cenhedloedd Unedig fod yn gorff llawer mwy effeithiol i atal rhyfeloedd yn y byd heddiw.

Gwahoddir pawb o bob cefndir sy'n rhannu'r weledigaeth i lofnodi, i ledaenu'r prosiect i fenywod a dynion ym mhob cwr o Gymru ac yn fyd-eang.

Am fwy o wybodaeth ac i gymeryd rhan cysylltwch â:

heddwchnain.mamgu@gmail.com